



Swydd Ddisgrifiad

Teitl y swydd :	Dylunydd	Lleoliad :	Hyblyg (unrhyw un o swyddfeydd yr Urdd)
Adran :	Cyfathrebu, Marchnata a Materion Cyhoeddus	Cyflog :	Gweithredol 5: £31,745 - £35,365 y flwyddyn
Oriau gwaith :	Llawr amser (35 awr yr wythnos)	Cytundeb :	Parhaol
Yn adrodd i :	Rheolwr Marchnata	Rheolaeth llinell :	Dim

Prif bwrpas y swydd:

Bydd dylunydd yr Urdd yn gyfrifol am waith dylunio creadigol y mudiad, gan gynnwys deunydd print a digidol ynghyd â chylchgrawn digidol. Bydd y rôl yn darparu gwasanaeth dylunio corfforaethol a chreadigol i adrannau amrywiol ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod pob cynnyrch yn adlewyrchu safonau gweledol y brand.

Bydd y dylunydd yn arwain ar ddatblygu ac adnewyddu brand yr Urdd yn barhaus, gan sicrhau delwedd gyfoes, ddeinamig a pherthnasol i brif fudiad ieuenctid Cymru.

Bydd hefyd yn gyfrifol am warchod brand a chynnal cysondeb brand yr Urdd ar draws pob sianel a deunydd cyfathrebu, mewn print ac ar-lein, gan weithredu fel prif geidwad gweledol y mudiad.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Cyfrifol am greu holl waith dylunio'r Urdd ar draws print a digidol.
2. Arwain, creu a datblygu deunydd brand ac is-frandiau ar gyfer adrannau ac ymgyrchoedd yr Urdd.
3. Datblygu, diweddarau a chynnal canllawiau brand yr Urdd.
4. Sicrhau'r defnydd gorau o amser ac adnoddau gan flaenoriaethu a rheoli'r llwyth gwaith dylunio.
5. Cydweithio'n agos gyda'r Rheolwr Marchnata, Swyddog Marchnata Digidol a'r Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu ar brosiectau ac ymgyrchoedd amrywiol, gan sicrhau bod pob gwaith dylunio yn ateb y briff ac yn cael ei gynhyrchu o fewn yr amserlen.
6. Blaenoriaethu ceisiadau dylunio a sicrhau bod holl adrannau'r Urdd yn deall y drefn o gael gwaith wedi'u ddylunio a chynnig cyngor lle bo angen.
7. Arwain ar sicrhau cysondeb brand ar draws holl ddeunydd mewnol ac allanol yr Urdd.
8. Creu a pharatoi dyluniad a thempledi ar gyfer deunyddiau marchnata i holl adrannau'r Urdd, gan gynnwys deunydd corfforaethol.
9. Ddylunio a gosod cylchgrawn digidol IAW yr Urdd, gan gydweithio yn agos



gyda'r Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu i greu cylchgrawn apelgar ac addas i'r gynulleidfa bob yn ail fis.

10. Cyfrifol am ddsbarthu cylchgronau digidol yr Urdd gan ddefnyddio meddalwedd Adobe Creative Cloud.
11. Cydweithio'n achlysurol gydag asiantaethau allanol i gomisiynu gwaith dylunio sy'n cydymffurfio â brand yr Urdd.
12. Trafod a chynghori staff ar ddyluniadau amrywiol ar draws y mudiad.
13. Arwain ar bartneriaethau gyda chyflenwyr allanol, gan gynnwys argraffwyr a dosbarthwyr a dylunwyr allanol yn achlysurol.
14. Sicrhau bod holl waith yn cydymffurfio gyda chanllawiau hygyrchedd ac yn adlewyrchu arferion gorau.
15. Cyfrannu fel aelod hyblyg o'r fîm cyfathrebu, gan ymateb i gyfarwyddyd a chynlluniau'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu.

Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Nodiadau i ymgeiswyr:

- I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.

Hanfodol:

1. Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn maes dylunio, neu o leiaf 3 blynedd o brofiad proffesiynol fel dylunydd.
2. Sgiliau cynllunio cadarn a'r gallu i blaengynllunio gwaith er mwyn cadw at amserlenni tynn.
3. Profiad o weithio ar ymgyrchoedd marchnata amrywiol ac addas i wahanol gynulleidfaoedd.
4. Profiad o weithio dan bwysau ac ar sawl prosiect ar yr un pryd.
5. Profiad o weithio mewn sefydliad neu gwmni, gyda ddealltwriaeth o bwysigrwydd cysondeb brand.
6. Profiad o greu cynnwys ar gyfer ymgyrchoedd digidol, gan gyfuno elfennau gwahanol o ddylunio ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a sianeli digidol eraill.
7. Profiad cryf o weithio ar feddalwedd dylunio addas megis Adobe Creative Cloud (InDesign, Photoshop, Illustrator),

Dymunol:

1. Profiad o osod a gweithio gyda chynnwys dwyieithog.
2. Profiad o greu graffegau symudol (animeiddio) syml.
3. Profiad o osod a dylunio cyhoeddiadau megis cylchgronau.
4. Trwydded yrru llawn lân a mynediad at gar.



Quark, ac eraill perthnasol.

8. Llygad craff a'r gallu i weithio gyda lefel uchel o gywirdeb.
9. Syniadau gwreiddiol a meddwl creadigol, gyda'r gallu i ddatrys problemau'n greadigol.
10. Dealltwriaeth gadarn o gyfraith hawlfraint delweddau a chynlluniau, a phrofiad o arfer da a chydwybodol o fewn y byd dylunio ac argraffu.

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Medi 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Gofynion: Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o [Egwyddorion Gweithio i'r Urdd](#) trwy gydol eu cyflogaeth.

Gwiriadau Perthnasol: Gallai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) os yn dewis gweithio allan o un o' Wersylloedd yr Urdd.